Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27: Trafodaeth gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru

16 Hydref 2025

Ar 16 Hydref 2025, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet) ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27.

Cymerodd yr aelodau a ganlyn o Senedd Ieuenctid Cymru (WYP) ran mewn trafodaeth breifat gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl i'r sesiwn dystiolaeth gyhoeddus ddod i ben:

- Jake Dillon, Sir Drefaldwyn;
- Grace Lee, Pen-y-bont ar Ogwr;
- Nate Hoccom, Gorllewin Casnewydd; a
- Megan Wyn Jones, Gogledd Caerdydd.

Codwyd y materion a ganlyn:

- Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet am y cyllid heb ei ddyrannu yn y gyllideb, a pham nad oedd hwn eisoes wedi'i ddyrannu i ariannu meysydd blaenoriaeth a oedd dan straen. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet drwy ddweud ei fod yn gobeithio dod o hyd i ffordd i'r Senedd

gytuno i wario y £380 miliwn ychwanegol nad oedd wedi'i ddyrannu, er mwyn cynyddu'r arian sydd ar gael i'r eithaf. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod y dull hwn yn adlewyrchu sefyllfa Llywodraeth Cymru nad oedd ganddi ddigon o Aelodau yn y Senedd i basio ei chyllideb, a'i bod yn bwysig cael arian ar ôl yn y Gyllideb Ddrafft i drafod gyda phob grŵp plaid a, phe bai wedi dyrannu'r holl gyllid sydd ar gael, na allai'r sgyrsiau hynny ddigwydd.

- Gofynnwyd barn yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch sut yr oedd yn bwriadu gwella'r ffordd yr oedd arian yn cael ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru drwy Fformiwla Barnett. Hefyd gofynnwyd sut yr oedd yn bwriadu cydweithredu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod hyn yn digwydd, a pha mor realistig oedd hyn fel nod. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai ei uchelgais oedd bod Fformiwla Barnett yn cael ei disodli gan rywbeth arall, ond ychwanegodd fod llywodraethau olynol wedi'i chael hi'n anodd iawn cael rhywbeth arall yn ei lle, yn bennaf oherwydd bod llywodraethau datganoledig eraill yn elwa o'r Fformiwla. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod wedi gwneud cynnydd o ran y ffordd y mae'r Fformiwla'n gweithio i'w gwneud yn fwy tryloyw, ac wedi dadlau dros gael canolwr annibynnol ar gyfer pan fydd anghydfodau'n codi rhwng llywodraethau datganoledig a llywodraethau'r DU ynghylch penderfyniadau ariannu.

- Soniodd aelod o'r Senedd Ieuenctid am benderfyniad a wnaed gan ei awdurdod lleol i ddileu darpariaeth addysgol ar gyfer gwasanaeth penodol, er gwaethaf y ffaith bod cyllid ar gael ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi canllawiau llymach i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylid defnyddio cyllid, ac at ba ddiben. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet drwy ddweud mai ei farn ef oedd y dylai Llywodraeth Cymru ganiatáu i awdurdodau lleol wneud eu penderfyniadau eu hunain a wynebu eu hetholwyr eu hunain am ganlyniadau'r penderfyniadau hynny. Er bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cydnabod y byddai'n demtasiwn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar sut y dylent wario arian, teimlai'r Ysgrifennydd Cabinet y byddai hyn yn peryglu tanseilio atebolrwydd democrataidd lleol. Nododd Aelodau eraill o'r Pwyllgor bwysigrwydd cael llais i bobl ifanc mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol, a digon o gyfleoedd i ymgynghori o ran penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

- Gofynnwyd i’r Ysgrifennydd Cabinet a fyddai'r Gyllideb Ddrafft gyfredol yn newid pe bai'r Prif Weinidog yn newid ar ôl etholiad y flwyddyn nesaf. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod hi’n bwysig i unrhyw lywodraeth newydd allu symud arian o gwmpas i ariannu ei blaenoriaethau. Ychwanegodd, dros gyfnod o bedair blynedd y Senedd, ei bod yn realistig y gellid cyflawni symudiadau sylweddol o ran cyllid i gyd-fynd â blaenoriaethau llywodraeth.

- Pan ofynnwyd iddo a ellid cynyddu'r terfyn presennol o £350 miliwn yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod cyfyngiadau ar offer cyllidol Llywodraeth Cymru yn un o nodweddion mwyaf heriol datganoli cyllidol. Ychwanegodd fod angen perswadio’r Trysorlys yn aml ynghylch natur datganoli sy’n aeddfedu, oherwydd bod Llywodraeth Cymru a’r Senedd wedi dangos dro ar ôl tro yn ystod y deng mlynedd o ddatganoli cyllidol y gellir rheoli cyllid mewn modd cyfrifol, heb fod angen mân reoli gan y Trysorlys.